



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Ariannu Cymunedol 2019 - 2020

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gomisiynwyr gynhyrchu Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n nodi blaenoriaethau plismona'r Comisiynydd ac sy'n cyfathrebu'r rhain i'r cyhoedd, asiantaethau partner a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu'n nodi blaenoriaethau'r Comisiynydd, ynghyd â manylion ynglŷn â sut y bydd y rhain yn cael eu mesur. Er mwyn cefnogi'r cynllun, mae'r Comisiynydd wedi nodi ei ymagwedd tuag at gomisiynu gwasanaethau a'r canlyniadau ar gyfer cymunedau Dyfed-Powys. Llunnir comisiynu gwasanaethau drwy gydol oes y Cynllun Heddlu a Throseddu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau dal yn cael eu halinio i flaenoriaethau strategol.

Mae CHTh Dyfed-Powys wedi sicrhau bod rhaglen ariannu ar gael i'r gymuned wneud cais amdani. Mae £75,000 ar gael i ariannu prosiectau cyfalaf a refeniw sy'n cefnogi gweledigaeth ei Gynllun Heddlu a Throseddu.

Amcan y rhaglen ariannu

Amcan y rhaglen yw cynnal gweithredu blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Mae'n anelu i ategu gweithgareddau sydd eisoes yn digwydd ledled cymunedau Dyfed-Powys, a bodloni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Fel rhaglenni ariannu eraill, byddwn ni'n canolbwyntio ar ganlyniadau'r prosiect, felly bydd angen i'ch prosiect ystyried yr agweddau canlynol:

- Adnabod, deall ac esbonio'r angen y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael ag ef;
- Byddwch yn glir ynghylch yr amcan cyffredinol a sut y bydd eich prosiect yn cyflawni yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu;
- Ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid allweddol a sicrhau ymgysylltiad llawn pob buddiolwr wrth ddatblygu'ch prosiect;
- Arddangos ffyrdd arloesol o weithio gyda phartneriaid a chymunedau o fewn eich sir;
- Egluro sut y byddwch chi'n mesur ac yn gwerthuso llwyddiant eich prosiect;
- Sut yr ydych chi'n bwriadu gweithredu'r dysgu o'ch prosiect i wella gwaith yn y dyfodol a'i gynladwyedd.

Mae gennym ddiddordeb gwybod pa wahaniaeth a wneir o ganlyniad i'ch prosiect, ac felly byddwn ni'n gofyn i chi ddisgrifio'r canlyniadau rydych chi'n disgwyl i'ch prosiect gyflawni a sut y mae'r rhain yn gysylltiedig â chanlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddau.

Bydd y rhaglen yn ariannu prosiectau sy'n syrthio o dan un neu fwy o'r blaenoriaethau canlynol o'r Cynllun Heddlu a Throseddau a'i egwyddorion allweddol:

- Cadw'n cymunedau'n ddiogel;
 - Comisiynu a hyrwyddo amrediad o brosiectau atal trosedd;
 - Lleihau aildroseddau a thorri'r cylch aildroseddau;
 - Lleihau'r effaith a'r niwed a achosir i gymunedau drwy gamddefnyddio sylweddau;
 - Hyrwyddo economi nos fwy diogel;
 - Lleihau troseddau bywyd gwyllt ac effaith hyn ar gymunedau gwledig;
 - Datblygu gwarchod cymdogaeth ymhellach yn ogystal â chynlluniau 'gwarchod' eraill.
- Cysylltu â Chymunedau;
 - Gwella ein dealltwriaeth o'n cymunedau fel ein bod ni'n medru ymateb yn briodol i'r ffordd y mae grwpiau cymunedol a chymunedau penodol eisau ymgysylltu;
 - Annog rhyngweithio cadarnhaol rhwng yr heddlu a'r cyhoedd;
 - Annog ymagwedd dargedig sy'n seiliedig ar y gymuned tuag at ddatrys problemau sy'n galluogi ymateb cyfiawnder lleol yn unol â dymuniadau'r dioddefydd;
 - Gwnewch yn siŵr bod holl aelodau'n cymunedau, gan gynnwys grwpiau amrywiol, yn cael cyfle i ymgysylltu drwy amrediad o ffordd;
- Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed;
 - Adnabod y rhai sydd mewn perygl o erledigaeth neu erledigaeth barhaol, a'r rhai sydd mewn perygl o droseddau;
 - Annog pobl i adrodd am droseddau a digwyddiadau casineb a gweithio gyda sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr troseddau casineb;
 - Cefnogi ac adeiladu ar waith partneriaeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig a throseddau treisgar;
 - Lleihau trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod;
 - Cynnal cymorth emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr cam-drin domestig i'w helpu i ymdopi a dod dros y profiad.
- Diogelu'n cymunedau rhag bygythiadau difrifol;
 - Gweithio gyda chymunedau i ddeall bygythiadau sy'n dod i'r amlwg, megis masnachu pobl, caethwasiaeth modern, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein, ac arferion niweidiol megis trais sy'n seiliedig ar anrhydedd, priodasau dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod;
 - Targedu pobl ifainc ar beryglon defnyddio cyffuriau gan gynnwys cysylltiadau posibl â gweithgarwch troseddau trefnedig a allai eu harwain at ecsbloetiaeth;
 - Cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch seiberdroseddau;

- Addysgu pobl ynghylch sut i'w diogelu rhag seiberdroseddu a ble i fynd pan maen nhw'n dioddef trosedd o'r fath.

Mae gwerthuso'n rhan anhepgor o gyflenwi prosiectau a gwasanaethau. Dylid cynllunio ar gyfer gwerthuso o'r cychwyn, ar ddechrau'r prosiect neu yn ystod y cam cynllunio. Rydyn ni'n annog prosiectau i gynnwys elfen o werthuso fel rhan o'u cynllun prosiect, gan sicrhau bod y broses werthuso'n gynhenid i ddatblygiad y prosiect o gychwyn cyntaf cynllunio'r prosiect. Bydd hyn yn helpu i sefydlu casglu data gwaelodlin er mwyn cymharu ac asesu effaith y prosiect a sicrhau bod y gwerthusiad yn canolbwyntio ar fesur y canlyniadau sydd wedi'u datgan ar ddechrau'r prosiect h.y. y newidiadau y mae'r prosiect wedi'u hysgogi yn hytrach na'r hyn y mae'r prosiect wedi cynhyrchu yn unig. Bydd gofyn i chi lenwi ffurflen werthuso ar ddiwedd eich prosiect i brofi eich bod wedi bodloni'r canlyniadau a nodwyd yn eich ffurflen gais ynghyd â phrawf o wariant ar y prosiect.

Y Broses Ymgeisio

O dan y rhaglen hon, byddwn ni'n sicrhau bod cyllid ar gael i'r sector cyhoeddus, y sector wirfoddol, sefydliadau cymunedol neu wirfoddol ac rydyn ni'n **annog sefydliadau i gydweithio**. Os fyddwch chi'n penderfynu gweithio mewn partneriaeth neu gymryd ymagwedd consortiwm, mae'n rhaid i chi ddewis sefydliad arweiniol sy'n gymwys i wneud cais ar gyfer cyllid. Rhaid mai'r sefydliad arweiniol yw'r prif ymgeisydd. Nhw fydd yn gyfrifol am reoli'r cyllid a'r prosiect.

Rhaid i'ch cais ddisgyn rhwng trothwy cyllid £5000 a £10,000 ac ni fyddwn ni'n derbyn ceisiadau sy'n uwch na hyn. Mae'r rhaglen ar agor o 13 Ebrill 2017 a'r dyddiad cau yw **24ain o Fai 2019**. Bydd angen i ni wybod hyd ac amserlen eich prosiect, o'r adeg y bydd yn cael ei weithredu i'r adeg y bydd yn gorffen felly bydd angen ystyried hyn a rhoi dyddiad cychwyn a dyddiad gorffen pendant.

Caiff ceisiadau eu sgorio gan y Comisiynydd Heddlu a throsedd a'u goruchwyllo gan ein Bwrdd comisiynu, a fydd yn ystyried ansawdd a gwerth am arian y prosiect, tra'n sgorio yn erbyn meini prawf penodol. Bydd y Bwrdd comisiynu yn cyfarfod bob 3 mis i wneud penderfyniadau ar geisiadau a gyflwynir o dan holl raglenni ariannu'r PCC.

NODER – Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Set o ofynion sy'n gyfreithiol-rwym yw'r rhain; mae dyletswydd ar Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gydymffurfio â'r safonau hyn o **30 Mawrth 2017 ymlaen**.

Mae'n hanfodol bod yn rhaid i unrhyw dderbynydd grant;

- Sicrhau bod gwasanaethau a llenyddiaeth yn cael eu cynnig yn Gymraeg (i bawb)
- Bydd angen i bob taflen/cysylltiad/gohebiaeth fod yn ddwyieithog (gan ymdrechu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg)

Bydd hyn yn ffurfio rhan o unrhyw gytundeb grant cyfreithiol os yw'ch prosiect yn llwyddiannus.

Costau cymwys

Costau uniongyrchol prosiect -

- Swyddi staff newydd er mwyn cyflwyno'r prosiect;
- Oriau ychwanegol er mwyn i staff cyfredol gyflwyno'r prosiect;
- Ffioedd proffesiynol;
- Gwaith cyfalaf;
- Gweithgareddau er mwyn ennyn ymrwymiad pobl á gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol;
- Gwerthuso;
- Hyrwyddo.

Nid yw costau prosiect uniongyrchol yn cynnwys –

- Cost amser staff presennol (heblaw eich bod chi'n trosglwyddo aelod staff presennol i swydd newydd er mwyn cyflwyno'r prosiect);
- Costau sefydliadol presennol.

Costau nad ydynt yn gymwys:

- Unigolion a masnachwyr unigol;
- Sefydliadau sydd heb eu sefydlu yn y DU;
- Prynu trafndiaeth;
- Costau wrth gefn;
- Gwaddolion;
- Eitemau sydd o fudd i unigolion yn bennaf;
- Gweithgareddau gwleidyddol neu grefyddol;
- Prosiectau neu weithgareddau y mae gan y wladwriaeth ddyletswydd gyfreithiol i'w darparu.

Prosiectau'n gweithio gyda phlant, pobl ifainc neu oedolion sy'n agored i niwed.

Os ydych chi'n gwneud cais am gyllid ar gyfer prosiect sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifainc neu oedolion sy'n agored i niwed (oherwydd eu hamgylchiadau neu eu problemau), mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych bolisi ategol sy'n esbonio sut y byddwch chi'n sicrhau y byddant yn ddiogel os ydynt yn gysylltiedig â'r cyllid prosiect yn uniongyrchol. Hefyd, rhaid eich bod chi'n medru dangos yn eich cais y bydd eich polisi'n cael ei weithredu.

Os ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau y bydd gan y sefydliad, clwb neu grŵp rydych chi'n gweithio gyda nhw weithdrefnau a pholisiau diogelu derbyniol ar gyfer plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n agored i niwed

mewn grym. Gallwn ofyn am gael archwilio'r rhain unrhyw adeg os fyddwn ni'n cynnig grant i chi.

Mae'n hollbwysig hefyd bod yr holl aelodau sy'n gysylltiedig â'r clwb / sefydliad wedi'u gwirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol os ydych chi'n gwneud cais ar ran cymdeithas neu glwb chwaraeon. Gofynnir i chi gadarnhau hyn yn eich cais pan fyddwch chi'n ei gyflwyno.

Gwybodaeth Bwysig

Unwaith y byddwch chi wedi cwblhau'ch cais ar ôl dilyn y canllawiau, anfonwch eich cais a dogfennau ategol i gyfeiriad e-bost Comisiynu SCHTh - **commissioning.opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk**

Sicrhewch mai teitl eich e-bost yw ' Ffurflen Gais y Gronfa Gymunedol '. .

Byddwn ni'n derbyn copïau electronig, ond rhaid bod llofnod electronig ynghlwm. Cyn ein bod ni'n medru derbyn eich cais yn swyddogol a'i gofrestru, mae'n rhaid i ni dderbyn copi caled o'r ffurflen gais wedi'i llofnodi hefyd. Rhaid ei hanfon at –

Jessica Williams
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Pencadlys yr Heddlu
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Jessica Williams ar 01267 226095.